5 Mehefin 2024 – Stadiwm Dinas Caerdydd

Cyfleoedd noddi

Beth yw gofod3?

Bydd gofod3, gofod Cymru ar gyfer y sector gwirfoddol, yn dychwelyd fel digwyddiad wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers 2019.

gofod3 yw'r digwyddiad mwyaf yng Nghymru i'r sector gwirfoddol, a bydd yn cael ei gynnal ar flwyddyn arbennig iawn i'r Wythnos Gwirfoddolwyr yn 40 oed – 5 Mehefin 2024 yn Stadiwm Dinas Caerdydd.

Daw mwy na 600 o bobl o sector gwirfoddol Cymru a thu hwnt ynghyd i ymweld â'r farchnad brysur a chymryd rhan mewn rhaglen lawn dop o fwy na 30 o siaradwyr, dosbarthiadau meistr, trafodaethau panel a gweithdai.

Mae pobl yn dod i **gofod3** i:

- Rwydweithio a chysylltu
- Dangos eu gwaith
- Dysgu o'i gilydd
- Ysbrydoli a chael eu hysbrydoli

Mae **gofod3** am ddim i gynrychiolwyr a gallai eich cymorth fel partner noddi helpu i wireddu **gofod3**.

Pam ddylwn i noddi gofod3?

- Mae **gofod3** yn cynnig cyfle unigryw i arddangos eich mudiad, rhannu eich cynnyrch a'ch gwasanaethau, cael cipolwg ar dueddiadau o fewn y sector a rhwydweithio gyda phenderfynwyr allweddol.

- Byddwch hefyd yn rhoi cymorth gwerthfawr i bobl sy'n gweithio ar draws y sector, gan wneud gwahaniaeth mawr i gymunedau yng Nghymru.

- Rydyn ni'n gwybod bod pobl sy'n dod i **gofod3** yn wirioneddol werthfawrogi'r cyfle i rwydweithio a chreu cysylltiadau ystyrlon a fydd yn helpu i symud eu gwaith ymlaen.

- Yn aml, mae pobl yn gweld **gofod3** fel eu cyfle datblygu allweddol am y flwyddyn gan ei fod am ddim i fynychu ac yn ymdrin ag amrediad eang o bynciau.

- Byddai eich cymorth i wireddu hyn yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi; mae'n gyfle gwych i gysylltu eich brand â digwyddiad sefydledig sy'n cefnogi pobl sy'n gwneud pethau gwych yng Nghymru.

Pwy sy'n dod i gofod3?

Cafodd **gofod3** ei sefydlu'n gyntaf yng ngwanwyn 2017 fel digwyddiad blynyddol, undydd yng Nghaerdydd. Gallwch weld fideo o'n digwyddiad diwethaf yn 2019 yma.

Mae mwy na 600 o bobl yn dod i **gofod3** yn ystod y diwrnod.

Daw'r mwyafrif o'r gynulleidfa o'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Mae pob sesiwn yn denu gwahanol bobl, o Brif Weithredwyr, staff rheng flaen, i ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr. Mae staff o'r sector cyhoeddus sy'n gweithio gyda'r sector gwirfoddol hefyd yn mynychu.

Mae siaradwyr adnabyddus a phobl dylanwadol allweddol o'r sector yn mynychu bob blwyddyn. Cyn nawr, mae'r rhain wedi cynnwys:

- **Mark Drakeford AS**
  Prif Weinidog Cymru
- **Y Fonesig Julia Unwin**
  Prif Swyddog Gweithredol Sefydliad Joseph Rowntree 2007-2016
- **Yr Athro Uzo Iwobi CBE**
  Cyngor Hil Cymru
- **Joe Saxton**
  Cadeirydd Cymdeithas y Cadeiryddion
- **Jane Hutt AS**
  Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, Llywodraeth Cymru
- **Zoe Amar**
  Cadeirydd y Cod Ymarfer Digidol i Elusennau

Beth sydd ar y rhaglen?

Ceir dros 30 o siaradwyr, dosbarthiadau meistr, trafodaethau panel a gweithdai yn ystod y dydd, gyda hyd at 12 digwyddiad yn cael eu cynnal ar yr un pryd. Mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau yn para am awr.

Gall pobl ddewis mynd i un digwyddiad yn unig neu greu eu rhaglenni eu hunain ar gyfer yr holl ddiwrnod.

Mae'r gweithdai a'r seminarau yn amrywio'n fawr, gan gynnwys:

- Digwyddiadau dysgu ar bynciau fel llywodraethu da neu seiberddiogelwch
- Arddangos gwaith mudiadau ar bynciau sy'n amrywio o iechyd a gofal cymdeithasol i'r amgylchedd
- Prif siaradwyr ysbrydoledig a thrafodaethau panel sy'n gwneud i chi feddwl

Yn ogystal â'r digwyddiadau ar y rhaglen, mae marchnad lle gall mudiadau o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol arddangos eu gwaith a lle gall pobl gwrdd â ffrindiau a chydweithwyr, hen a newydd, o'r un anian.

Ble a phryd fydd yn cael ei gynnal?

Bydd **gofod3** yn cael ei gynnal yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr arbennig sy'n dathlu 40 oed:

5 Mehefin 2024 yn Stadiwm Dinas Caerdydd

Pwy sy'n trefnu gofod3?

Mae **gofod3** yn ddigwyddiad a drefnir gan CGGC, mewn cydweithrediad â'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru.

Mae CGGC yn bodoli i alluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

Am ragor o wybodaeth amdanom, ewch i **wcva.cymru**.

Pa gyfleoedd sydd yna i ni gymryd rhan?

Mae gennym ni ddwy haen o noddi ar gael ...

Noddwr platinwm (cost: £6,750)

Fel ein noddwr platinwm, byddwch chi'n cael y lefel uchaf o sylw, gan gynnwys:

- Brandio – y sylw mwyaf mewn pob cydnabyddiaeth noddi ar-lein, yn llyfryn y digwyddiad ac yn yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a marchnata wrth baratoi ar gyfer y digwyddiad
- Cyfle i roi mewnbwn croesawu pum munud o hyd yn y cyfarfod llawn agoriadol
- Gofod arddangos mawr mewn lleoliad amlwg (3m x 2m)
- Hyd at ddau ddigwyddiad un awr o hyd ar y brif raglen
- Ein prif ofod ar gyfer digwyddiadau (theatr gofod3, lle i 150 o gynrychiolwyr) wedi'i frandio fel 'cyflwynwyd gan' eich mudiad
- Cyfle i gael erthygl benodedig ar ôl y digwyddiad yng nghylchlythyr CGGC i 2,500 o danysgrifwyr

Noddwr aur (cost: £3,750)

Fel noddwr aur, byddwch yn derbyn y buddion canlynol sy'n cynnwys:

- Brandio – cydnabyddiaeth noddi ar-lein, yn llyfryn y digwyddiad ac ar gyfryngau cymdeithasol wrth baratoi ar gyfer y digwyddiad
- Gofod arddangos mawr mewn lleoliad amlwg (3m x 2m)
- Slot digwyddiad un awr o hyd ar y brif raglen
- Blog gwadd ar wefan CGGC cyn neu ar ôl gofod3

Mae'n bosibl y bydd slotiau digwyddiad a gofod arddangos ar gael i'w prynu ar wahân yn agosach at yr amser, ond bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i noddwyr.

Nid yw TAW wedi'i chynnwys ar unrhyw bris a nodwyd.

Cysylltu â ni

Siaradwch â ni am y cyfleoedd noddi sy'n gweithio i chi:

helo@gofod3.cymru

0300 111 0124